# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU – IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH RANBARTHOL

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 7 Mai 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd D.Price** |
| **Cynghorwyr**: | E.Thomas, A.Stevens, R.Sinnett a/ac W.F.Griffiths |
| **Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:** | M.James |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Davies, D.John, D.Griffiths, W.Bramble, S.Aldred-Jones, K.Tillman, R.Lewis a/ac C.Plowman |
| **Cynghorwyr Allanol:** | L.White |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2024 fel cofnod cywir.

## 4. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU - Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN

Cafodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen waith mewn perthynas â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh).

Atgoffwyd y Pwyllgor fod y Cynllun Gweithredu a'r Achos dros Newid wedi cael eu cynhyrchu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru; y cam nesaf oedd cynhyrchu drafft cychwynnol y CTRh.

Esboniwyd bod Swyddogion, yn ystod camau cynnar y gwaith, wedi mynegi pryderon am yr amserlenni a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch datblygu'r CTRh; diben yr adroddiad hwn oedd amlygu'r newid yn yr amserlenni o gynhyrchu drafft cychwynnol y CTRh.

Nododd swyddogion fod yr amserlen gychwynnol yn nodi bod angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyflwyno'u drafftiau cyntaf i Lywodraeth Cymru erbyn 29 Mai 2024; gyda'r drafft terfynol yn cael ei gyflwyno erbyn 31 Hydref 2024. Hysbyswyd Aelodau y byddai'r amserlen ddiwygiedig yn cynnwys cyfnod ymgynghori ym mis Mai/Mehefin 2024, a diweddariad i'r polisi a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru erbyn mis Gorffennaf 2024. Ychwanegwyd bod swyddogion yn gweithio tuag at yr amserlen wreiddiol ar gyfer cyflwyno'r drafft terfynol i Lywodraeth Cymru (31 Hydref 2024) ar hyn o bryd.

Nodwyd bod gan swyddogion bryderon o hyd mewn perthynas â chyflawni fersiwn derfynol y CTRh o fewn yr amserlen a bennwyd, sef 29 Mawrth 2025. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn diweddaru'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol ynghylch y materion hyn unwaith y byddai'r newyddion diweddaraf ar gael.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod De-orllewin Cymru yn dechrau o haen is o ran gwybodaeth, o'i chymharu â rhanbarthau eraill; gan fod De-ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru wedi comisiynu sefydliadau trafnidiaeth i ymgymryd â llawer o'r gwaith. Dywedwyd taw'r her go iawn ar gyfer De-orllewin Cymru oedd casglu'r dystiolaeth i lunio'r cynllun cyflawni ar gyfer y CTRh.

Mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth mewn perthynas â'r amserlenni diwygiedig ac roeddent yn teimlo bod y rhain yn fwy realistig na'r rhai a gyflwynwyd yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:**
Cadarnhau'r diwygiad i'r rhaglen waith ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru, cam drafft cychwynnol, fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd a'i ganmol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i'w gymeradwyo.

5. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag